# Enghraifft Chwaraeon RhCT [ENW'R CLWB] Cyfansoddiad 2025/26

1. Enw'r Clwb
Enw'r clwb fydd: [Mewnosod Enw Llawn y Clwb]

2. Nodau ac Amcanion
Nodau'r clwb yw:
- Darparu cyfleoedd cyfranogiad i bob aelod yn ogystal â chyfleoedd hyfforddi cystadlaethau i'r aelodau hynny sy'n dymuno chwarae [mewnosod chwaraeon] cystadleuol.
- Hyrwyddo [mewnosod chwaraeon] ac ymgysylltiad cymunedol i [mewnosod cynulleidfaoedd targed]
- Darparu amgylchedd diogel a chynhwysol i bob aelod; gan sicrhau bod y clwb a'i aelodau'n cydymffurfio â'i bolisi diogelu ac yn dilyn canllawiau gan unrhyw gyrff llywodraethu.
- [Ychwanegwch unrhyw nodau neu amcanion eraill]

3. Cysylltiad
Bydd y clwb yn gysylltiedig â: [Mewnosod y Corff Llywodraethu/cynghreiriau/cysylltiadau gofynnol eraill perthnasol sy'n benodol i'ch chwaraeon a'ch ardal]

4. Aelodaeth
- Mae aelodaeth ar agor i bob unigolyn, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.
- Categorïau aelodaeth: [e.e., Iau, Hŷn, Cymdeithasol, Gwirfoddolwr, Swyddog]
- Bydd ffioedd aelodaeth yn cael eu pennu'n flynyddol gan y Pwyllgor.
- Rhaid i aelodau lynu wrth god ymddygiad y clwb a rhoi hawliau pleidleisio iddyn nhw yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a/neu gyfarfodydd eraill y clwb pan fo angen.
- Bydd pob aelod iau ac oedolion sy'n chwarae yn cael eu cofrestru i'r [mewnosod manylion y Clwb Llywodraethu Cenedlaethol a/neu'r gynghrair] i sicrhau bod y clwb a'r unigolyn wedi'u cynnwys trwy'r yswiriant a'r polisïau gofynnol. Nodwch, bydd gan [mewnosod manylion y Clwb Llywodraethu Cenedlaethol a/neu'r gynghrair] fynediad at fanylion y clwb ac unigolion yn ystod y broses gofrestru yma.

5. Y Pwyllgor Rheoli

- Bydd y Clwb yn cael ei reoli gan bwyllgor sy'n cynnwys:
    - Cadeirydd [mewnosod enw – dewisol]
    - Is-gadeirydd [mewnosodwch enw – dewisol]
    - Ysgrifennydd [mewnosod enw – dewisol]
    - Trysorydd [mewnosod enw – dewisol]
    - Swyddog Lles [mewnosod enw – dewisol]
    - Aelodau'r Pwyllgor Cyffredinol x5-10 [mewnosod enwau – dewisol]
    - [Ychwanegwch unrhyw rolau perthnasol eraill]
- Mae modd sefydlu is-bwyllgorau eraill yn ôl yr angen yn ôl disgresiwn y pwyllgor rheoli.
- Caiff aelodau'r pwyllgor eu hethol yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ychwanegir atyn nhw yn ystod y flwyddyn os yw'n ystyried bod angen gwneud hynny.
- Rhaid i bob aelod o'r pwyllgor fod yn aelodau o'r clwb.
- Cworwm ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor yw [mewnosodwch yr hyn y cytunwyd arno e.e. 3 aelod] a chyflwyno cofnodion o'r cyfarfodydd hynny i'r pwyllgor rheoli ynghyd ag aelodau pan fo angen.

6. Cyfarfodydd

- Caiff Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) ei gynnal unwaith y flwyddyn.
- Rhoddir rhybudd o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i bob aelod o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw.
- Bydd y CCB yn cynnwys:
    - Adroddiad y Cadeirydd ar weithgareddau'r clwb y flwyddyn flaenorol
    - Adroddiad y Trysorydd ar sefyllfa ariannol a chyfrifon y clwb
    - Ethol y Pwyllgor
    - Trafod unrhyw gynigion
- Cynhelir cyfarfodydd y pwyllgor [bob wythnos/bob mis/bob chwarter] a chaiff unrhyw wybodaeth berthnasol ei nodi a'i rhannu ag aelodau'r clwb pan fo angen.
- Dylid cynnal a chofnodi unrhyw gyfarfodydd pwyllgor arbennig, gan gynnwys cyfarfodydd disgyblu, yn briodol er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau'n deg ac yn cael eu trin yn unol â chyfansoddiad/cod ymddygiad/rheolau'r clwb.

7. Cyllid

- Bydd holl arian y Clwb yn cael ei fancio mewn cyfrif o dan enw'r Clwb.
- Bydd y Trysorydd yn cadw cofnodion cywir o incwm a gwariant.
- Bydd y cyfrifon yn cael eu cynhyrchu a'u harchwilio'n flynyddol gan bwyllgor y clwb.
- Rhaid i bob taliad gael ei awdurdodi gan o leiaf ddau aelod o'r pwyllgor.
- Mae modd i'r clwb ddarparu tâl a threuliau i unrhyw swyddog, aelod neu bersonau eraill am wasanaethau i'r clwb os cytunir ar hynny gan y pwyllgor rheoli.

8. Newidiadau i'r Cyfansoddiad
- Mae modd diwygio'r cyfansoddiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu mewn cyfarfod a gynhelir yn arbennig.
- Mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ar gyfer unrhyw welliant.

9. Disgyblu a Chwynion
- Dylid cyflwyno pob pryder neu gŵyn yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd.
- Bydd y pwyllgor yn ymchwilio ac yn ymateb yn deg. Gall sancsiynau gynnwys rhybuddion, atal dros dro, neu derfynu aelodaeth.
- Dylid cynnal a chofnodi unrhyw gyfarfodydd disgyblu yn briodol er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau'n deg ac yn cael eu trin yn unol â chyfansoddiad/cod ymddygiad/rheolau'r clwb.
- Dylai'r ysgrifennydd hysbysu canlyniad unrhyw wrandawiad disgyblu yn ysgrifenedig i'r person a wnaeth y gŵyn a'r aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn cyn pen 7 diwrnod i'r gwrandawiad.

10. Diddymiad
- Os caiff y clwb ei ddiddymu, bydd unrhyw arian ac/neu eiddo sy'n weddill yn cael eu rhoi i'r aelod neu elusen leol/clwb arall â nodau tebyg, fel y cytunwyd gan yr aelodau.
- Dim ond mewn cyfarfod pwyllgor cyffredinol y cynigir cynnig i ddiddymu'r clwb a rhaid i fwyafrif gytuno, hynny yw, o leiaf dri chwarter o'r aelodau sydd â hawl i bleidleisio. Dylid cynnwys dyddiad penodol ar gyfer diddymu yn y penderfyniad.

11. Cydraddoldeb a Diogelu
- Mae'r clwb wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant ym mhob un o'i weithgareddau.
- Bydd y clwb yn dilyn canllawiau a pholisïau diogelu yn ôl gofynion ei gorff llywodraethu [mewnosodwch y Corff Llywodraethu Cenedlaethol a/neu Gorff Llywodraethu arall].

12. Datganiad a Dyddiad Mabwysiadu
Mae [Enw'r Clwb] drwy hyn yn mabwysiadu ac yn derbyn y Cyfansoddiad yma.
Cafodd y cyfansoddiad yma ei fabwysiadu yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar: [nodwch y dyddiad]

<u>Llofnodion</u>

Cadeirydd : ________________________________ Dyddiad: __________________

Ysgrifennydd:________________________________ Dyddiad: __________________